WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Archwiliad o 'Gwneud i sgiliau weithio i Ferthyr Tudful: datblygu gweithlu'r dyfodol' – **Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful**


Blwyddyn archwilio: 2018-19

Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1409A2019-20

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn rhan o waith a wnaed yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb o ran unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu rhinwedd unigol, neu unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a thrydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn info.officer@audit.wales.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English. Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Katherine Simmons a Ron Price o dan gyfarwyddyd Sara-Jane Byrne.

# Cynnwys

Mae'r Cyngor yn ystyried yr egwyddor datblygu cynaliadwy yn ei ddull o wneud i sgiliau weithio i Ferthyr Tudful: datblygu gweithlu'r dyfodol, ond mae angen gwneud rhagor o waith i ymwreiddio'r pum ffordd o weithio.


Adroddiad cryno

Pam y gwnaethom gynnal yr archwiliad hwn 4

Adroddiad Manwl

Rhan Un: Canfyddiadau'r Archwiliad

Mae'r Cyngor yn defnyddio data i gefnogi datblygiad cynlluniau hirdymor, ond gallai ddatblygu gweledigaeth strategol sy'n fwy eglur i gefnogi twf economaidd hirdymor 6

Mae'r Cyngor yn canolbwyntio ar atal rhagor o ddirywiad economaidd, ond mae potensial i ddatblygu dull sy'n cynnwys y 'system gyfan' yn fwy er mwyn mynd i'r afael â'r hyn sy'n achosi'r problemau 7

Megis dechrau mae integreiddio wrth gefnogi cynnydd i fodloni Amcanion Llesiant ac mae lle i gryfhau'r broses integreiddio er mwyn cyflawni nodau llesiant cenedlaethol 8

Mae'r Cyngor yn cydweithio â darpar gyflogwyr ond byddai'n elwa ar gryfhau ei ddull strategol o gydweithio 9

Mae'r Cyngor yn cynnwys rhai rhanddeiliaid allweddol wrth gyflawni'r cam, ond gallai ddatblygu ei ymagwedd yn fwy er mwyn cynnwys amrywiaeth lawn y gymuned 10

Rhan Dau: Ymateb y Cyngor 12

Atodiadau

Atodiad 1: Dangosyddion Cadarnhaol o'r Pum Ffordd o Weithio 46

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Pam y cynhaliwyd yr Archwiliad

1 Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf), mae gofyniad statudol ar Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) i archwilio cyrff cyhoeddus er mwyn asesu i ba raddau y maent wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth:

a. bennu eu hamcanion llesiant, a

b. chymryd camau i'w cyflawni.

Mae'r Ddeddf yn diffinio'r egwyddor datblygu cynaliadwy fel gweithredu mewn modd: '…sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau'.

2 Mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ddarparu adroddiad ar ei archwiliadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o leiaf blwyddyn cyn ethol pob Cynulliad. Mae'n rhaid cyhoeddi'r adroddiad cyntaf o'r fath erbyn 2020, cyn etholiad y Cynulliad yn 2021.

3 Yn ystod 2018-19, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal archwiliadau ar draws 44 o gyrff sydd wedi'u cynnwys yn y Ddeddf er mwyn llywio'i adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol.

4 Ym mis Mai 2018, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei adroddiad 'Myfyrio ar Flwyddyn Un: Sut mae Cyrff Cyhoeddus wedi Ymateb i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015?'. Daeth i'r casgliad bod cyrff cyhoeddus yn cefnogi egwyddorion y Ddeddf a'u bod yn cymryd camau i newid sut y maent yn gweithio.

5 Wrth ddatblygu ein dull o gynnal yr archwiliadau yn ystod 2018-19, ymgysylltwyd ag amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys trwy ein gwaith cychwynnol yn ystod 2017-18. Fe wnaethom weithio'n agos gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol hefyd.

6 Gan fod y gwaith cychwynnol ym mlwyddyn un wedi cynnwys ystyriaeth o sut yr oedd cyrff cyhoeddus wedi pennu eu Hamcanion Llesiant, prif bwyslais y gwaith hwn yw sut y mae cyrff cyhoeddus yn cymryd camau i gyflawni eu hamcanion llesiant.

7 Mae'r canfyddiadau yn yr adroddiad hwn wedi'u seilio ar waith maes a wnaed yn ystod y cyfnod o fis Ionawr hyd fis Mawrth 2019.

8 Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein canfyddiadau o'n harchwiliad o 'Gwneud i sgiliau weithio i Ferthyr Tudful: datblygu gweithlu'r dyfodol', sef cam y mae'r Cyngor yn ei gymryd i gyflawni ei Amcanion Llesiant.

9 Mae hefyd yn nodi ymateb cychwynnol y Cyngor i'n canfyddiadau.

## Yr hyn a archwiliwyd

10 Fe wnaethom archwilio i ba raddau y mae'r Cyngor yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth wneud i sgiliau weithio i Ferthyr Tudful: datblygu gweithlu'r dyfodol

11 Er mwyn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus ystyried y 'ffyrdd o weithio' canlynol:

### Arddangosyn 1: y 'pum ffordd o weithio'

Mae'r tabl isod yn nodi'r 'pum ffordd o weithio' a ddiffinnir yn nogfen Llywodraeth Cymru 'Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Yr Hanfodion.[1]

| Y Pum Ffordd o Weithio |
|---|
| **Hirdymor**<br>Pwysigrwydd cydbwyso anghenion tymor byr â'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion hirdymor hefyd. |
| **Atal**<br>Sut y gall gweithredu i atal problemau rhag codi neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion. |
| **Integreiddio**<br>Ystyried sut y gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill. |
| **Cydweithredol**<br>Gweithredu ar y cyd ag unrhyw berson arall (neu rannau gwahanol o'r corff ei hun) a allai helpu'r corff i gyflawni ei amcanion llesiant. |
| **Cynnwys**<br>Pwysigrwydd cynnwys pobl â buddiant mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny yn adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei wasanaethu. |

12 Canfu ein harchwiliad fod: Mae'r Cyngor yn ystyried yr egwyddor datblygu cynaliadwy yn ei ddull o wneud i sgiliau weithio i Ferthyr Tudful: datblygu gweithlu'r dyfodol, ond mae angen gwneud rhagor o waith i ymwreiddio'r pum ffordd o weithio.

[1] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Yr Hanfodion, Llywodraeth Cymru (2015)

# Adroddiad manwl

## Rhan Un: Canfyddiadau'r archwiliad

## Mae'r Cyngor yn defnyddio data i gefnogi datblygiad cynlluniau hirdymor, ond gallai ddatblygu gweledigaeth strategol sy'n fwy eglur i gefnogi twf economaidd hirdymor

### Yr hyn y chwiliwyd amdani

13 Chwiliwyd am dystiolaeth o:

- ddealltwriaeth drylwyr o'r anghenion presennol a hirdymor a'r heriau a'r cyfleoedd cysylltiedig;
- cynllunio dros gyfnod priodol o amser;
- adnoddau wedi'u dyrannu i sicrhau buddion hirdymor; a
- threfniadau monitro ac adolygu priodol.

Llywiwyd ein harchwiliad hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer yr 'hirdymor' a nodwyd a ddefnyddiwyd yn rhan o'r archwiliad hwn.[2] 1

### Yr hyn a ganfuwyd

2 Nodwyd y cryfderau canlynol:

- Defnyddio data a gwybodaeth am y farchnad lafur
- Symud y pwyslais o ymyriadau tymor byr i welliannau hirdymor i gyfleoedd am swyddi a dilyniant yn y gwaith
- Mae rhai rhaglenni cymorth cyflogaeth yn arwain at newid hirdymor mewn sgiliau, dyheadau a chanlyniadau unigolion
- Datblygu a pharhau i fuddsoddi yn y bartneriaeth Twf Economaidd er mwyn cefnogi ei gynlluniau tymor hwy
- Cyflwyno manteision tymor byr i ganolig wrth gynllunio ar gyfer y tymor hwy hefyd, e.e. o amgylch Trago Mills a denu cyflogwyr newydd
- Ymarfer gwersi a ddysgwyd er mwyn adolygu a datblygu ei ddull o gefnogi cyfleoedd datblygu economaidd hirdymor.

3 Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

[2] Gweler Atodiad 1

- Ceir dealltwriaeth amrywiol o ystyr ‘hirdymor’ i’r Cyngor yng nghyd-destun y Ddeddf.
- Cynlluniau cydgysylltiedig allweddol i lywio cyfeiriad y cam yn y dyfodol, e.e. Strategaeth Twf Economaidd, Cynllun Datblygu Lleol, Uwchgynllun Canol Tref, Strategaeth ar gyfer Trechu Tlodi - ond nid ydynt wedi eu harwain gan weledigaeth a rennir â phartneriaid
- Er bod y Cyngor yn dechrau casglu astudiaethau achos er mwyn ychwanegu naratif at eu dull o fesur llwyddiant, mae’r broses o fonitro ac adolygu’r cam wedi ei chysylltu ag allbynnau yn hytrach na chanlyniadau yn y tymor hwy
- Amlygodd y Cyngor fod rhai risgiau sylweddol o ran adnoddau sy’n gysylltiedig â darparu’r gwasanaeth cyflogadwyedd, gyda model ar gyfer y gwasanaeth hyd at 2022 yn unig.

# Mae’r Cyngor yn canolbwyntio ar atal rhagor o ddirywiad economaidd, ond mae potensial i ddatblygu dull sy’n cynnwys y ‘system gyfan’ yn fwy er mwyn mynd i’r afael â’r hyn sy’n achosi’r problemau

## Yr hyn y chwiliwyd amdani

4 Chwiliwyd am dystiolaeth o:

- dealltwriaeth drylwyr o natur y broblem a’r math o broblem y gallai’r cam helpu i’w atal rhag codi neu waethygu;
- adnoddau a ddyrannwyd i sicrhau y cyflawnir buddion ataliol; a
- threfniadau monitro ac adolygu effeithiolrwydd y cam wrth atal problemau rhag codi neu waethygu.

14 Llywiwyd ein harchwiliad hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer ‘atal’ a nodwyd gennym ac a ddefnyddiwyd yn rhan o’r archwiliad hwn.[3]

## Yr hyn a ganfuwyd

15 Nodwyd y cryfderau canlynol:

- Pwyslais ar atal anweithgarwch economaidd hirdymor sydd wedi ei fynegi’n dda yn fewnol ac yn allanol
- Mae’r defnydd o ddata yn gwella, sy’n helpu i nodi’r problemau a sut y gellir eu hatal rhag gwaethygu

[3] Gweler Atodiad 1

- Mae'r Cyngor yn deall y problemau a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i fynd i'r afael â nhw, er enghraifft, drwy ganolbwyntio ar bartneriaethau canol trefi
- Mae natur y camau gweithredu addysg a hyfforddiant yn ataliol i raddau helaeth
- Mae'r Cyngor wedi neilltuo rhai adnoddau ar gyfer gweithgareddau atal ac arian cyfatebol ar gyfer rhai rhaglenni
- Rhaglenni addysg mewn ysgolion i lunio dyheadau – cysylltu cyngor gyrfaoedd â data a gwybodaeth wirioneddol am y farchnad lafur

16 Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

- Mae angen mwy o bwyslais ar ymagwedd system gyfan tuag at gyflogadwyedd a datblygu sgiliau i ddeall achosion sylfaenol problemau a sut i fynd i'r afael â nhw
- Er bod y Cyngor wedi neilltuo rhai adnoddau ar gyfer gweithgareddau atal ac arian cyfatebol ar gyfer rhai rhaglenni, mae'r rhaglenni atal yn rhai tymor byr o ran eu natur o ganlyniad i'r ddibyniaeth ar gyllid allanol ar gyfer cyfnodau penodol
- Mae'r Cyngor wedi nodi bod rhai rhaglenni hyfforddi sylweddol sy'n ymddangos mewn meysydd y darparwyd ar eu cyfer eisoes – e.e. trinwyr gwallt, prydferthwyr

# Megis dechrau mae integreiddio wrth gefnogi cynnydd i fodloni Amcanion Llesiant ac mae lle i gryfhau'r broses integreiddio er mwyn cyflawni nodau llesiant cenedlaethol

## Yr hyn y chwiliwyd amdani

17 Chwiliwyd am dystiolaeth o ystyriaeth o:

- sut y gallai'r cam hwn gyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol;
- sut y bydd cyflawni'r cam hwn yn effeithio ar amcanion llesiant a blaenoriaethau ehangach y Cyngor; a
- sut y bydd cyflawni'r cam hwn yn effeithio ar amcanion llesiant cyrff cyhoeddus eraill.

18 Llywiwyd ein harchwiliad hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'integredig' a nodwyd gennym ac a ddefnyddiwyd yn rhan o'r archwiliad hwn.[4]

[4] Gweler Atodiad 1

## Yr hyn a ganfuwyd

19 Nodwyd y cryfderau canlynol:

- Tynnodd swyddogion sylw at y rhyngweithio rhwng y cam hwn a'r camau eraill yn yr amcan hwn ac amcanion eraill y Cyngor, e.e. Bod plant yn cael y dechrau gorau i fywyd a'u bod yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol i fod yn ddysgwyr llwyddiannus ac yn unigolion hyderus
- Mae'r Cyngor yn ystyried twf economaidd fel thema drawsbynciol ar draws y Cyngor
- Mae'r Cyngor yn dechrau integreiddio cynlluniau a chamau gweithredu er mwyn cyflawni ei amcanion Llesiant.

20 Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

- Integreiddio cynlluniau a chamau gweithredu yn fwy er mwyn cyflawni'r cam a'r amcanion llesiant yn fwy cyffredinol.
- Ystyriaeth yn fwy sut y gallai'r cam hwn gyfrannu at y gwahanol agweddau ar lesiant (economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol) ac yn benodol y nodau llesiant cenedlaethol.

# Mae'r Cyngor yn cydweithio â darpar gyflogwyr ond byddai'n elwa ar gryfhau ei ddull strategol o gydweithio

## Yr hyn y chwiliwyd amdani

21 Chwiliwyd am dystiolaeth bod y Cyngor:

- wedi ystyried sut y gallai weithio gydag eraill i gyflawni'r cam (i gyflawni ei amcanion llesiant, neu gynorthwyo corff arall i gyflawni ei amcanion llesiant);
- yn cydweithredu'n effeithiol i gyflawni'r cam; ac
- yn monitro ac yn adolygu a yw'r cydweithredu yn ei helpu neu'n helpu ei randdeiliaid i gyflawni amcanion llesiant.

Llywiwyd ein harchwiliad hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'cydweithredu' a nodwyd gennym ac a ddefnyddiwyd yn rhan o'r archwiliad hwn.[5] 1

## Yr hyn a ganfuwyd

2 Nodwyd y cryfderau canlynol:

[5] Gweler Atodiad 1

- Trwy'r Bartneriaeth Twf Economaidd, mae'r Cyngor wedi datblygu ymagwedd lle mae un sefydliad yn arwain ar gyfleoedd cyflogaeth a datblygu economaidd newydd
- Yn fewnol, mae aelodau'r tîm Adfywio Cymunedol yn cydgysylltu cymorth i fusnesau
- Cydweithrediad cadarnhaol â'r sector preifat o ran datblygu a darparu cyfleoedd cyflogaeth ac adfywio economaidd
- Mae'r Cyngor yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi cyfraniadau'r partneriaid. Y mae wedi datblygu perthynas aeddfed â phartneriaid drwy'r Bartneriaeth Twf Economaidd, y Grŵp Trechu Tlodi, partneriaeth Canol y Dref, a Chyngor Blaenau Gwent er mwyn cyflwyno'r prosiect Aspire.
- Mynegodd y partneriaid benderfyniad ar y cyd a chydgyfrifoldeb am lenwi bylchau adnoddau o ran darparu pecyn i weithwyr a chyflogwyr, h.y. paru pobl â swyddi.

3 Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

- Nid yw prosesau adolygu a monitro'r Cyngor ynghylch a yw cydweithrediadau yn ei helpu i gyflawni'r cam a'r Amcan Llesiant cysylltiedig yn systematig ar hyn o bryd.
- Mae diffyg cynlluniau gweithredu clir a gweledigaeth gytûn a rennir yn rhwystr i atebolrwydd ar y cyd am ganlyniadau.

# Mae'r Cyngor yn cynnwys rhai rhanddeiliaid allweddol wrth gyflawni'r cam, ond gallai ddatblygu ei ymagwedd yn fwy er mwyn cynnwys amrywiaeth lawn y gymuned

## Yr hyn y chwiliwyd amdani

4 Chwiliwyd am dystiolaeth bod y Cyngor wedi:

- nodi pwy y mae angen eu cynnwys wrth gynllunio a chyflawni'r cam;
- cynnwys rhanddeiliaid allweddol mewn modd effeithiol wrth gynllunio a chyflawni'r cam;
- defnyddio canlyniadau'r ymgysylltu i lunio datblygiad a chyflawniad y cam; a
- cheisio dysgu gwersi a gwella'i ddull o ymgysylltu.

22 Llywiwyd ein harchwiliad hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'cymryd rhan' a nodwyd gennym ac a ddefnyddiwyd yn rhan o'r archwiliad hwn.[6]

[6] Gweler Atodiad 1

## Yr hyn a ganfuwyd

23 Nodwyd y cryfderau canlynol:

- Nodir anghenion unigol gan ddefnyddio’r offeryn llesiant goddrychol
- Cynhaliwyd cyfarfodydd cyhoeddus i ddatblygu cynnig twristiaeth sy’n seiliedig ar dreftadaeth ar gyfer y dyfodol
- Mae gan bartneriaid y cyfle i ddylanwadu ar gyflawniad rhaglenni, ac ymgysylltu â nhw
- Mae’r rhaglen Aspire yn gweithio gydag unigolion ac yn eu cynnwys.

24 Nodwyd y meysydd canlynol i’w gwella:

- Nid yw amrywiaeth lawn a holl sectorau’r gymuned wedi’u cynnwys wrth ddylunio a gweithredu’r cam

# Rhan Dau: Ymateb y Cyngor

25 Ar ôl i'n gwaith maes ddod i ben, fe wnaethom gyflwyno ein canfyddiadau i'r Cyngor mewn gweithdy ym mis Mehefin 2019 gyda swyddogion o dimau datblygu economaidd a pherfformiad corfforaethol y Cyngor a chynrychiolydd o Tydfil Training. Yn y gweithdy hwn dechreuodd y Cyngor ystyried ei ymateb i'n canfyddiadau ac o ganlyniad i'r trafodaethau yn y gweithdy, a rhagor o fyfyrio ar ein canfyddiadau, mae'r Cyngor wedi datblygu cynllun gweithredu a nodir ar y tudalennau nesaf.

26 Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd y Cyngor wrth weithredu'r camau hyn ac i ba raddau y maent yn mynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn ein canfyddiadau.

Arddangosyn 2: cynllun gweithredu y Cyngor

| Gweithgaredd | Dyddiad Dechrau a Gynlluniwyd | Dyddiad Gorffen a Gynlluniwyd | Dyddiad Dechrau Gwirioneddol | Dyddiad Gorffen Gwirioneddol | Swyddog(ion) â chyfrifoldeb | Statws Glas Coch Oren a Gwyrdd | Cynnydd | % Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Atal** | | | | | | | | |
| Thema 1 - Datblygu cynllun rhannu data (yn brydlon ac i'r meysydd cywir) i lywio cynlluniau hirdymor | Mai 2019 | Ebrill 2020 | Mai 2019 | | AM | Gwyrdd | | 10% |
| Thema 1 - Adolygu'r meini prawf cymhwysedd er mwyn cyflawni'r rhaglen i'r graddau gorau posibl o ran cyflawni'r cam llesiant | Mai 2019 | Medi 2019 | Mai 2019 | | AM | Gwyrdd | | 0% |
| Thema 1 - Adolygu adnoddau i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â chanlyniadau | Mai 2019 | Ebrill 2020 | Mai 2019 | | AM | Oren | | 0% |

| Gweithgaredd | Dyddiad Dechrau a Gynlluniwyd | Dyddiad Gorffen a Gynlluniwyd | Dyddiad Dechrau Gwirioneddol | Dyddiad Gorffen Gwirioneddol | Swyddog(ion) â chyfrifoldeb | Statws Glas Coch Oren a Gwyrdd | Cynnydd | % Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| (adrannau mewnol a sefydliadau allanol) | | | | | | | | |
| Thema 1 - Gweithio'n agos gydag ysgolion a dysgu i nodi bylchau sgiliau posibl a sicrhau bod cyfleoedd profiad gwaith effeithiol ar gael | Mai 2019 | Ebrill 2020 | Mehefin 2019 | | CL | Gwyrdd | | 20% |
| Thema 1 - Datblygu ymwybyddiaeth a gwybodaeth am gwricwlwm ysgolion er mwyn helpu i gyflawni'r canlyniadau a galluogi camau atal | Mehefin 2019 | Ebrill 2022 | Mehefin 2019 | | SW | Gwyrdd | | 2% |
| Thema 2 - Gwerthuso'r ddarpariaeth hyd yn hyn ar draws y cam a datblygu'r gwersi a ddysgwyd er mwyn | Mai 2019 | Medi 2019 | Mai 2019 | | MP | Gwyrdd | | 15% |

| **Gweithgaredd** | **Dyddiad Dechrau a Gynlluniwyd** | **Dyddiad Gorffen a Gynlluniwyd** | **Dyddiad Dechrau Gwirioneddol** | **Dyddiad Gorffen Gwirioneddol** | **Swyddog(ion) â chyfrifoldeb** | **Statws Glas Coch Oren a Gwyrdd** | **Cynnydd** | **% Wedi'i gwblhau** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| llywio gwaith cynllunio yn y dyfodol | | | | | | | | |
| Thema 2 - Gwerthuso er mwyn cynllunio'r ddarpariaeth ar gyfer y dyfodol (yn benodol i'r pum ffordd o weithio) | Gorffennaf 2019 | Ebrill 2020 | Mai 2019 | | AM | Gwyrdd | | 20% |
| Thema 2 - Profi a oes adnodd ar gael i fodloni materion tymor byr ac a yw cynllunio adnoddau yn ei gwneud cymryd camau atal | Mai 2019 | Ebrill 2020 | Mai 2019 | | AO | Gwyrdd | | 0% |
| Thema 2 - Profi prosesau monitro - wedi eu cyfochri'n benodol â'r pum ffordd o weithio | Mai 2019 | Medi 2019 | Mai 2019 | | AM | Gwyrdd | | 15% |

| **Gweithgaredd** | **Dyddiad Dechrau a Gynlluniwyd** | **Dyddiad Gorffen a Gynlluniwyd** | **Dyddiad Dechrau Gwirioneddol** | **Dyddiad Gorffen Gwirioneddol** | **Swyddog(ion) â chyfrifoldeb** | **Statws Glas Coch Oren a Gwyrdd** | **Cynnydd** | **% Wedi'i gwblhau** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Thema 3 - Deall materion cymdeithasol a defnyddio'r wybodaeth hon wrth ddylunio a darparu | Mehefin 2019 | Ebrill 2020 | | | CL | Gwyrdd | | 0% |
| Thema 3 - Nodi achosion sylfaenol sy'n ymwneud â diweithdra a defnyddio'r wybodaeth hon wrth ddylunio (y system gyfan) | Mehefin 2019 | Ebrill 2020 | | | CL | Gwyrdd | | 0% |
| Thema 3 - Cysylltu anghenion â chyllid, ac ymgysylltu â chyllidwyr pan fo bylchau | Mehefin 2019 | Ebrill 2020 | | | CL | Gwyrdd | | 0% |
| Cydweithredu | | | | | | | | |

| **Gweithgaredd** | **Dyddiad Dechrau a Gynlluniwyd** | **Dyddiad Gorffen a Gynlluniwyd** | **Dyddiad Dechrau Gwirioneddol** | **Dyddiad Gorffen Gwirioneddol** | **Swyddog(ion) â chyfrifoldeb** | **Statws Glas Coch Oren a Gwyrdd** | **Cynnydd** | **% Wedi'i gwblhau** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Thema 1 - Nodi pwy fyddai orau i gyflawni beth cyn y cam dylunio | Gorffennaf 2019 | Ebrill 2020 | | | AO | Gwyrdd | | 0% |
| Thema 1 - Sicrhau bod pawb yn deall eu swyddogaeth a'u lle nhw yn y darlun ehangach | Gorffennaf 2019 | Ebrill 2020 | | | AO | Gwyrdd | | 0% |
| Thema 1 - Esbonio amcanion/nodau yn glir | Gorffennaf 2019 | Ebrill 2020 | | | CL | Gwyrdd | | 0% |
| Thema 1 - Sicrhau bod canlyniadau o fudd i ddinasyddion | Gorffennaf 2019 | Ebrill 2020 | | | CL | Gwyrdd | | 0% |
| Thema 1 - Sefydlu ffyrdd o brofi a yw cydweithrediad yn gweithio (gwerth am arian wrth gyflawni canlyniadau) | Gorffennaf 2019 | Ebrill 2020 | | | EC | Gwyrdd | | 0% |

| Gweithgaredd | Dyddiad Dechrau a Gynlluniwyd | Dyddiad Gorffen a Gynlluniwyd | Dyddiad Dechrau Gwirioneddol | Dyddiad Gorffen Gwirioneddol | Swyddog(ion) â chyfrifoldeb | Statws Glas Coch Oren a Gwyrdd | Cynnydd | % Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Thema 1 - Sefydlu ffyrdd o sicrhau cydweithrediad effeithiol | Gorffennaf 2019 | Ebrill 2020 | | | EC | Gwyrdd | | 0% |
| Thema 1 - Sicrhau bod Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael eu defnyddio yn y ffordd gywir wrth ddarparu'r cam hwn | Gorffennaf 2019 | Ebrill 2020 | | | EC | Gwyrdd | | 0% |
| Thema 2 - Cynnwys partneriaid wrth adrodd | Gorffennaf 2019 | Ebrill 2020 | | | DR-N | Gwyrdd | | 0% |
| Thema 2 - Profi cynlluniau gweithredu i sicrhau bod pawb yn defnyddio'r pum ffordd o weithio | Medi 2019 | Ebrill 2020 | | | AM | Gwyrdd | | 0% |
| Thema 2 - Sicrhau bod lefel gywir o atebolrwydd i bawb | Gorffennaf 2019 | Ebrill 2020 | | | AO | Gwyrdd | | 0% |

| Gweithgaredd | Dyddiad Dechrau a Gynlluniwyd | Dyddiad Gorffen a Gynlluniwyd | Dyddiad Dechrau Gwirioneddol | Dyddiad Gorffen Gwirioneddol | Swyddog(ion) â chyfrifoldeb | Statws Glas Coch Oren a Gwyrdd | Cynnydd | % Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Thema 2 - Defnyddio cymheiriaid o gynghorau eraill i brofi a yw'r cydweithrediad yn effeithiol | Mai 2019 | Ebrill 2020 | | | AM | Gwyrdd | | 15% |
| Thema 3 - Hybu defnydd cyffredin o iaith llesiant ymhlith yr holl bartneriaid | Mai 2019 | Ebrill 2020 | | | AM | Oren | | 0% |
| Thema 3 - Datblygu ffyrdd y gellir rhannu data ar draws cydweithrediadau er mwyn cyflawni nod cyffredin | Mai 2019 | Ebrill 2020 | Mai 2019 | | AM | Gwyrdd | | 10% |
| Thema 3 - Sicrhau y crëir amgylcheddau diogel ar draws y cydweithrediadau er mwyn cyflawni'r canlyniadau gorau i ddinasyddion | Mai 2019 | Ebrill 2022 | | | AO | Gwyrdd | | 2% |

| Gweithgaredd | Dyddiad Dechrau a Gynlluniwyd | Dyddiad Gorffen a Gynlluniwyd | Dyddiad Dechrau Gwirioneddol | Dyddiad Gorffen Gwirioneddol | Swyddog(ion) â chyfrifoldeb | Statws Glas Coch Oren a Gwyrdd | Cynnydd | % Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Thema 3 - Ystyried nodau terfynol pob partner yn ystod y cam dylunio (cysylltu ag integreiddio) | Medi 2019 | Ebrill 2022 | | | AO | Gwyrdd | | 0% |
| Thema 3 - Rhannu canlyniadau'n well i helpu pawb i bennu llwyddiant/methiant | Mai 2019 | Ebrill 2020 | Mai 2019 | | MP | Gwyrdd | | 10% |
| Thema 3 - Rhannu a defnyddio astudiaethau achos i nodi buddion a dysgu gwersi | Mai 2019 | Ebrill 2020 | Mai 2019 | | MP | Gwyrdd | | 20% |
| Cymryd rhan | | | | | | | | |
| Thema 1 - Llunio methodoleg i gynnwys yr holl randdeiliaid | Medi 2019 | Ebrill 2020 | | | JG | Gwyrdd | | 0% |

| **Gweithgaredd** | **Dyddiad Dechrau a Gynlluniwyd** | **Dyddiad Gorffen a Gynlluniwyd** | **Dyddiad Dechrau Gwirioneddol** | **Dyddiad Gorffen Gwirioneddol** | **Swyddog(ion) â chyfrifoldeb** | **Statws Glas Coch Oren a Gwyrdd** | **Cynnydd** | **% Wedi'i gwblhau** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| (cyfathrebu ar lafar, yn ysgrifenedig, ac yn weledol) | | | | | | | | |
| Thema 1 - Gwella cyfranogiad ar draws y rhanbarth ehangach | Medi 2019 | Ebrill 2020 | | | AO | Gwyrdd | | 0% |
| Thema 1 - Deall a phontio'r bylchau a adawyd gan Cymunedau yn Gyntaf | Awst 2019 | Ebrill 2020 | | | AO | Gwyrdd | | 0% |
| Thema 1 - Adolygu arferion presennol a datblygu canlyniadau ym mhob cyfnod dylunio newydd | Mai 2019 | Medi 2019 | Mai 2019 | | AM | Gwyrdd | | 0% |
| Thema 1 - Sicrhau bod yr holl waith ymgynghori wedi ei gynllunio â phwyslais ar y 5 ffordd o weithio | Mai 2019 | Medi 2019 | Mai 2019 | | CD | Gwyrdd | | 0% |

| **Gweithgaredd** | **Dyddiad Dechrau a Gynlluniwyd** | **Dyddiad Gorffen a Gynlluniwyd** | **Dyddiad Dechrau Gwirioneddol** | **Dyddiad Gorffen Gwirioneddol** | **Swyddog(ion) â chyfrifoldeb** | **Statws Glas Coch Oren a Gwyrdd** | **Cynnydd** | **% Wedi'i gwblhau** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Thema 2 - Defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gynnwys rhanddeiliaid yn y gwaith o gynllunio a darparu | Mai 2019 | Ebrill 2022 | Mai 2019 | | CD | Gwyrdd | | 0% |
| Thema 2 - Cynnwys partïon sefydledig (e.e. cyngor dylunio Cymru) ar gamau allweddol o'r broses ddarparu | Mai 2019 | Ebrill 2022 | Mai 2019 | | CD | Gwyrdd | | 0% |
| Thema 2 - Sicrhau bod y data cywir yn cael eu casglu yn rhan o'r broses gynnwys (e.e. gwell dull o gasglu gwybodaeth gan gyflogwr: llais y cyflogwr ar ôl cyflawni'r ymyriad) | Mai 2019 | Ebrill 2020 | Mai 2019 | | AM | Gwyrdd | | 10% |
| Thema 3 - Sicrhau bod grwpiau ffocws yn cael eu defnyddio'n effeithiol yn ystod | Mai 2019 | Ebrill 2022 | Mai 2019 | | CD | Gwyrdd | | 0% |

| Gweithgaredd | Dyddiad Dechrau a Gynlluniwyd | Dyddiad Gorffen a Gynlluniwyd | Dyddiad Dechrau Gwirioneddol | Dyddiad Gorffen Gwirioneddol | Swyddog(ion) â chyfrifoldeb | Statws Glas Coch Oren a Gwyrdd | Cynnydd | % Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| y camau cynllunio a thrwy gydol yr holl broses | | | | | | | | |
| Thema 3 - Sicrhau bod arolygon lleisiau dysgwyr yn llywio'r prosesau cynllunio a darparu | Mai 2019 | Ebrill 2022 | Mai 2019 | | CD | Gwyrdd | | 0% |
| Thema 3 - Sicrhau bod y partïon cywir yn cymryd rhan mewn grwpiau ffocws ac yn ystod cyfnodau eraill trwy gydol y broses o gyflawni'r cam hwn | Mai 2019 | Ebrill 2022 | Mai 2019 | | AO | Gwyrdd | | 0% |
| Thema 3 - Deall dynameg y gymuned a chynnwys y gymuned wrth gynllunio a thrwy gydol y broses | Mai 2019 | Ebrill 2022 | Mai 2019 | | AO | Gwyrdd | | 0% |

| **Gweithgaredd** | **Dyddiad Dechrau a Gynlluniwyd** | **Dyddiad Gorffen a Gynlluniwyd** | **Dyddiad Dechrau Gwirioneddol** | **Dyddiad Gorffen Gwirioneddol** | **Swyddog(ion) â chyfrifoldeb** | **Statws Glas Coch Oren a Gwyrdd** | **Cynnydd** | **% Wedi'i gwblhau** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Integreiddio | | | | | | | | |
| Thema 1 - Rhannu strategaethau'n well (o ran canlyniadau) ar draws Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | Mai 2019 | Ebrill 2020 | Mai 2019 | | AM | Gwyrdd | | 10% |
| Thema 1 - Symleiddio strategaethau | Mai 2019 | Ebrill 2020 | Mai 2019 | | AM | Gwyrdd | | 10% |
| Thema 1 - Gwella'r broses o gyfathrebu â rhanddeiliaid ynghylch cynllunio, datblygu a gweithredu'r strategaeth | Mai 2019 | Ebrill 2022 | Mai 2019 | | CD | Gwyrdd | | 0% |
| Thema 1 - Sicrhau bod yr holl staff (a phawb sy'n gysylltiedig) yn deall eu | Mai 2019 | Ebrill 2022 | Mai 2019 | | HB | Gwyrdd | | 0% |

| **Gweithgaredd** | **Dyddiad Dechrau a Gynlluniwyd** | **Dyddiad Gorffen a Gynlluniwyd** | **Dyddiad Dechrau Gwirioneddol** | **Dyddiad Gorffen Gwirioneddol** | **Swyddog(ion) â chyfrifoldeb** | **Statws Glas Coch Oren a Gwyrdd** | **Cynnydd** | **% Wedi'i gwblhau** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| cyfraniad wrth gyflawni canlyniadau | | | | | | | | |
| Thema 1- Defnyddio'r llinyn euraidd fel bod staff yn deall eu rhan nhw yn y darlun ehangach | Mehefin 2019 | Ebrill 2020 | | | EC | Gwyrdd | | 0% |
| Thema 1 - Sicrhau bod yr holl bartneriaid yn deall sut y gellir defnyddio eu cyfraniad at y broses gydweithredu er mwyn cyflawni'n well ar gyfer ein dinasyddion (y bobl iawn yn siarad ar yr adeg iawn) | Mai 2019 | Ebrill 2022 | Mai 2019 | | CD | Gwyrdd | | 0% |
| Thema 2 - Sicrhau ymrwymiad a dealltwriaeth briodol drwy bolisïau a strategaethau cydgysylltiedig | Mai 2019 | Ebrill 2022 | Mai 2019 | | HB | Gwyrdd | | 0% |

| Gweithgaredd | Dyddiad Dechrau a Gynlluniwyd | Dyddiad Gorffen a Gynlluniwyd | Dyddiad Dechrau Gwirioneddol | Dyddiad Gorffen Gwirioneddol | Swyddog(ion) â chyfrifoldeb | Statws Glas Coch Oren a Gwyrdd | Cynnydd | % Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Thema 2 - Defnyddio iaith gyffredin a nodau cyffredin (yn fewnol ac yn allanol) ar draws pob fforwm | Mai 2019 | Ebrill 2020 | | | AM | Oren | | 0% |
| Thema 2 - Datblygu gwell dealltwriaeth ymhlith arweinwyr a staff gweithredol Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful o sut y mae cyflawni canlyniadau o fewn amcan llesiant hefyd yn cyfrannu at amcanion llesiant ehangach. | Mai 2019 | Ebrill 2020 | | | EC | Oren | | 0% |
| Thema 2 - Sicrhau bod y cynlluniau strategol yn gydnaws | Mai 2019 | Ebrill 2020 | | | AM | Oren | | 0% |

| **Gweithgaredd** | **Dyddiad Dechrau a Gynlluniwyd** | **Dyddiad Gorffen a Gynlluniwyd** | **Dyddiad Dechrau Gwirioneddol** | **Dyddiad Gorffen Gwirioneddol** | **Swyddog(ion) â chyfrifoldeb** | **Statws Glas Coch Oren a Gwyrdd** | **Cynnydd** | **% Wedi'i gwblhau** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Thema 2 - Sicrhau bod yr holl allbynnau a'r targedau wedi eu cysylltu â strategaethau sy'n cyflawni blaenoriaethau | Mai 2019 | Ebrill 2020 | | | AM | Oren | | 0% |
| Thema 3 - Sicrhau bod rhyngweithio rheolaidd parhaus yn digwydd â'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Bwrdd Cynllunio Strategol er mwyn rhannu datblygiadau a newidiadau | Mai 2019 | Ebrill 2022 | Mai 2019 | | EC | Gwyrdd | | 0% |
| Thema 3 - Sicrhau bod yr holl adnoddau wedi eu cyfochri er mwyn darparu strategaethau i ddarparu'r gwerth gorau am arian yn seiliedig ar flaenoriaethu | Mai 2019 | Ebrill 2020 | Mai 2019 | | AO | Oren | | 0% |

| Gweithgaredd | Dyddiad Dechrau a Gynlluniwyd | Dyddiad Gorffen a Gynlluniwyd | Dyddiad Dechrau Gwirioneddol | Dyddiad Gorffen Gwirioneddol | Swyddog(ion) â chyfrifoldeb | Statws Glas Coch Oren a Gwyrdd | Cynnydd | % Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Thema 3 - Sicrhau bod y cyngor yn parhau â'i swyddogaeth fel cysylltydd a hwylusydd wrth integreiddio strategaethau a chyllid i'r holl randdeiliaid | Mai 2019 | Ebrill 2020 | Mai 2019 | | EC | Gwyrdd | | 0% |
| Yr Hirdymor | | | | | | | | |
| Thema 1 - Sicrhau bod amcanion llesiant a gweledigaeth y cyngor yn ystyried yr hirdymor a bod cynlluniau gweithredu'n gyson â hynny | Mai 2019 | Ebrill 2020 | Mai 2019 | | EC | Gwyrdd | | 0% |
| Thema 1 - Sicrhau bod y pum ffordd o weithio yn ganolog i gynlluniau gwella | Mai 2019 | Ebrill 2020 | Mai 2019 | | AM | Gwyrdd | | 0% |

| **Gweithgaredd** | **Dyddiad Dechrau a Gynlluniwyd** | **Dyddiad Gorffen a Gynlluniwyd** | **Dyddiad Dechrau Gwirioneddol** | **Dyddiad Gorffen Gwirioneddol** | **Swyddog(ion) â chyfrifoldeb** | **Statws Glas Coch Oren a Gwyrdd** | **Cynnydd** | **% Wedi'i gwblhau** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| busnes, hunanwerthuso a llywodraethu corfforaethol | | | | | | | | |
| Thema 1 - Cysylltu â chynnwys ac integreiddio - sicrhau bod yr holl strategaethau ac amcanion partner yn gyson â'r hirdymor | Mai 2019 | Ebrill 2020 | Mai 2019 | | AM | Gwyrdd | | 10% |
| Thema 1 - Gweithio gyda rhanddeiliaid/partneriaid i egluro'r weledigaeth hirdymor ar gyfer Merthyr Tudful a sut y gall pawb gydweithio i gyflawni hynny | Mai 2019 | Ebrill 2022 | Mai 2019 | | CD | Gwyrdd | | 0% |
| Thema 1 - Wrth ymgysylltu â'r gymuned, sicrhau yr ystyrir yr hirdymor | Mai 2019 | Ebrill 2022 | Mai 2019 | | CD | Gwyrdd | | 0% |

| Gweithgaredd | Dyddiad Dechrau a Gynlluniwyd | Dyddiad Gorffen a Gynlluniwyd | Dyddiad Dechrau Gwirioneddol | Dyddiad Gorffen Gwirioneddol | Swyddog(ion) â chyfrifoldeb | Statws Glas Coch Oren a Gwyrdd | Cynnydd | % Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Thema 2 - Adolygu 'yr hirdymor' ym mhob strategaeth | Mai 2019 | Ebrill 2020 | Mai 2019 | | AM | Gwyrdd | | 10% |
| Thema 2 - Profi cynlluniau strategol a chynlluniau gwella busnes o'u cymharu â'r hirdymor | Mai 2019 | Ebrill 2020 | Mai 2019 | | AM | Gwyrdd | | 10% |
| Thema 2 - Diffinio swyddogaethau ar draws cynlluniau gweithredu sy'n cynnwys cynllunio olyniaeth er mwyn darparu ar gyfer yr hirdymor | Mai 2019 | Ebrill 2020 | Mai 2019 | | HB | Gwyrdd | | 10% |
| Thema 2 - Sicrhau bod pob strategaeth yn un integredig a hirdymor | Mai 2019 | Ebrill 2020 | Mai 2019 | | AM | Gwyrdd | | 10% |

| Gweithgaredd | Dyddiad Dechrau a Gynlluniwyd | Dyddiad Gorffen a Gynlluniwyd | Dyddiad Dechrau Gwirioneddol | Dyddiad Gorffen Gwirioneddol | Swyddog(ion) â chyfrifoldeb | Statws Glas Coch Oren a Gwyrdd | Cynnydd | % Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Thema 2 - Profi gweledigaeth a nodau er mwyn sicrhau pwyslais ar yr hirdymor | Mai 2019 | Ebrill 2020 | Mai 2019 | | AM | Gwyrdd | | 10% |
| Thema 3 - Gweithio gyda chyllidwyr a gosodwyr polisi er mwyn cysoni strategaethau cenedlaethol a chyllid â'r hirdymor | Medi 2019 | Ebrill 2022 | | | AO | Gwyrdd | | 0% |
| Thema 3 - Ymgorffori'r pum ffordd o weithio i'r broses Ffocws ar Fy Mherfformiad | Mai 2019 | Ebrill 2020 | Mai 2019 | | HB | Gwyrdd | | 50% |
| Thema 3 - Craffu ar y gorwel i sicrhau y nodir risgiau yn y dyfodol o ran cyflawni'r weledigaeth/nodau | Mai 2019 | Ebrill 2020 | Mai 2019 | | AM | Gwyrdd | | 10% |

| Gweithgaredd | Dyddiad Dechrau a Gynlluniwyd | Dyddiad Gorffen a Gynlluniwyd | Dyddiad Dechrau Gwirioneddol | Dyddiad Gorffen Gwirioneddol | Swyddog(ion) â chyfrifoldeb | Statws Glas Coch Oren a Gwyrdd | Cynnydd | % Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Atal** | | | | | | | | |
| Thema 1 - Datblygu cynllun rhannu data (yn brydlon ac i'r meysydd cywir) i lywio cynlluniau hirdymor | Mai 2019 | Ebrill 2020 | Mai 2019 | | AM | Gwyrdd | | 10% |
| Thema 1 - Adolygu'r meini prawf cymhwysedd er mwyn cyflawni'r rhaglen i'r graddau gorau posibl o ran cyflawni'r cam llesiant | Mai 2019 | Medi 2019 | Mai 2019 | | AM | Gwyrdd | | 0% |
| Thema 1 - Adolygu adnoddau i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â chanlyniadau (adrannau mewnol a sefydliadau allanol) | Mai 2019 | Ebrill 2020 | Mai 2019 | | AM | Oren | | 0% |
| Thema 1 - Gweithio'n agos gydag ysgolion a dysgu i nodi bylchau sgiliau posibl a sicrhau bod cyfleoedd profiad gwaith effeithiol ar gael | Mai 2019 | Ebrill 2020 | Mehefin 2019 | | CL | Gwyrdd | | 20% |
| Thema 1 - Datblygu ymwybyddiaeth a gwybodaeth am gwricwlwm ysgolion er mwyn helpu i gyflawni'r canlyniadau a galluogi camau atal | Mehefin 2019 | Ebrill 2022 | Mehefin 2019 | | SW | Gwyrdd | | 2% |

| Gweithgaredd | Dyddiad Dechrau a Gynlluniwyd | Dyddiad Gorffen a Gynlluniwyd | Dyddiad Dechrau Gwirioneddol | Dyddiad Gorffen Gwirioneddol | Swyddog(ion) â chyfrifoldeb | Statws Glas Coch Oren a Gwyrdd | Cynnydd | % Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Thema 2 - Gwerthuso'r ddarpariaeth hyd yn hyn ar draws y cam a datblygu'r gwersi a ddysgwyd er mwyn llywio gwaith cynllunio yn y dyfodol | Mai 2019 | Medi 2019 | Mai 2019 | | MP | Gwyrdd | | 15% |
| Thema 2 - Gwerthuso er mwyn cynllunio'r ddarpariaeth ar gyfer y dyfodol (yn benodol i'r pum ffordd o weithio) | Gorffennaf 2019 | Ebrill 2020 | Mai 2019 | | AM | Gwyrdd | | 20% |
| Thema 2 - Profi a oes adnodd ar gael i fodloni materion tymor byr ac a yw cynllunio adnoddau yn ei gwneud cymryd camau atal | Mai 2019 | Ebrill 2020 | Mai 2019 | | AO | Gwyrdd | | 0% |
| Thema 2 - Profi prosesau monitro - wedi eu cyfochri'n benodol â'r pum ffordd o weithio | Mai 2019 | Medi 2019 | Mai 2019 | | AM | Gwyrdd | | 15% |
| Thema 3 - Deall materion cymdeithasol a defnyddio'r wybodaeth hon wrth ddylunio a darparu | Mehefin 2019 | Ebrill 2020 | | | CL | Gwyrdd | | 0% |
| Thema 3 - Nodi achosion sylfaenol sy'n ymwneud â diweithdra a | Mehefin 2019 | Ebrill 2020 | | | CL | Gwyrdd | | 0% |

| Gweithgaredd | Dyddiad Dechrau a Gynlluniwyd | Dyddiad Gorffen a Gynlluniwyd | Dyddiad Dechrau Gwirioneddol | Dyddiad Gorffen Gwirioneddol | Swyddog(ion) â chyfrifoldeb | Statws Glas Coch Oren a Gwyrdd | Cynnydd | % Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| defnyddio'r wybodaeth hon wrth ddylunio (y system gyfan) | | | | | | | | |
| Thema 3 - Cysylltu anghenion â chyllid, ac ymgysylltu â chyllidwyr pan fo bylchau | Mehefin 2019 | Ebrill 2020 | | | CL | Gwyrdd | | 0% |
| Cydweithredu | | | | | | | | |
| Thema 1 - Nodi pwy fyddai orau i gyflawni beth cyn y cam dylunio | Gorffennaf 2019 | Ebrill 2020 | | | AO | Gwyrdd | | 0% |
| Thema 1 - Sicrhau bod pawb yn deall eu swyddogaeth a'u lle nhw yn y darlun ehangach | Gorffennaf 2019 | Ebrill 2020 | | | AO | Gwyrdd | | 0% |
| Thema 1 - Esbonio amcanion/nodau yn glir | Gorffennaf 2019 | Ebrill 2020 | | | CL | Gwyrdd | | 0% |

| Gweithgaredd | Dyddiad Dechrau a Gynlluniwyd | Dyddiad Gorffen a Gynlluniwyd | Dyddiad Dechrau Gwirioneddol | Dyddiad Gorffen Gwirioneddol | Swyddog(ion) â chyfrifoldeb | Statws Glas Coch Oren a Gwyrdd | Cynnydd | % Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Thema 1 - Sicrhau bod canlyniadau o fudd i ddinasyddion | Gorffennaf 2019 | Ebrill 2020 | | | CL | Gwyrdd | | 0% |
| Thema 1 - Sefydlu ffyrdd o brofi a yw cydweithrediad yn gweithio (gwerth am arian wrth gyflawni canlyniadau) | Gorffennaf 2019 | Ebrill 2020 | | | EC | Gwyrdd | | 0% |
| Thema 1 - Sefydlu ffyrdd o sicrhau cydweithrediad effeithiol | Gorffennaf 2019 | Ebrill 2020 | | | EC | Gwyrdd | | 0% |
| Thema 1 - Sicrhau bod Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael eu defnyddio yn y ffordd gywir wrth ddarparu'r cam hwn | Gorffennaf 2019 | Ebrill 2020 | | | EC | Gwyrdd | | 0% |
| Thema 2 - Cynnwys partneriaid wrth adrodd | Gorffennaf 2019 | Ebrill 2020 | | | DR-N | Gwyrdd | | 0% |
| Thema 2 - Profi cynlluniau gweithredu i sicrhau bod pawb yn defnyddio'r pum ffordd o weithio | Medi 2019 | Ebrill 2020 | | | AM | Gwyrdd | | 0% |

| Gweithgaredd | Dyddiad Dechrau a Gynlluniwyd | Dyddiad Gorffen a Gynlluniwyd | Dyddiad Dechrau Gwirioneddol | Dyddiad Gorffen Gwirioneddol | Swyddog(ion) â chyfrifoldeb | Statws Glas Coch Oren a Gwyrdd | Cynnydd | % Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Thema 2 - Sicrhau bod lefel gywir o atebolrwydd i bawb | Gorffennaf 2019 | Ebrill 2020 | | | AO | Gwyrdd | | 0% |
| Thema 2 - Defnyddio cymheiriaid o gynghorau eraill i brofi a yw'r cydweithrediad yn effeithiol | Mai 2019 | Ebrill 2020 | | | AM | Gwyrdd | | 15% |
| Thema 3 - Hybu defnydd cyffredin o iaith llesiant ymhlith yr holl bartneriaid | Mai 2019 | Ebrill 2020 | | | AM | Oren | | 0% |
| Thema 3 - Datblygu ffyrdd y gellir rhannu data ar draws cydweithrediadau er mwyn cyflawni nod cyffredin | Mai 2019 | Ebrill 2020 | Mai 2019 | | AM | Gwyrdd | | 10% |
| Thema 3 - Sicrhau y crëir amgylcheddau diogel ar draws y cydweithrediadau er mwyn cyflawni'r canlyniadau gorau i ddinasyddion | Mai 2019 | Ebrill 2022 | | | AO | Gwyrdd | | 2% |
| Thema 3 - Ystyried nodau terfynol pob partner yn ystod y cam dylunio (cysylltu ag integreiddio) | Medi 2019 | Ebrill 2022 | | | AO | Gwyrdd | | 0% |

| Gweithgaredd | Dyddiad Dechrau a Gynlluniwyd | Dyddiad Gorffen a Gynlluniwyd | Dyddiad Dechrau Gwirioneddol | Dyddiad Gorffen Gwirioneddol | Swyddog(ion) â chyfrifoldeb | Statws Glas Coch Oren a Gwyrdd | Cynnydd | % Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Thema 3 - Rhannu canlyniadau'n well i helpu pawb i bennu llwyddiant/methiant | Mai 2019 | Ebrill 2020 | Mai 2019 | | MP | Gwyrdd | | 10% |
| Thema 3 - Rhannu a defnyddio astudiaethau achos i nodi buddion a dysgu gwersi | Mai 2019 | Ebrill 2020 | Mai 2019 | | MP | Gwyrdd | | 20% |
| Cymryd rhan | | | | | | | | |
| Thema 1 - Llunio methodoleg i gynnwys yr holl randdeiliaid (cyfathrebu ar lafar, yn ysgrifenedig, ac yn weledol) | Medi 2019 | Ebrill 2020 | | | JG | Gwyrdd | | 0% |
| Thema 1 - Gwella cyfranogiad ar draws y rhanbarth ehangach | Medi 2019 | Ebrill 2020 | | | AO | Gwyrdd | | 0% |
| Thema 1 - Deall a phontio'r bylchau a adawyd gan Cymunedau yn Gyntaf | Awst 2019 | Ebrill 2020 | | | AO | Gwyrdd | | 0% |

| Gweithgaredd | Dyddiad Dechrau a Gynlluniwyd | Dyddiad Gorffen a Gynlluniwyd | Dyddiad Dechrau Gwirioneddol | Dyddiad Gorffen Gwirioneddol | Swyddog(ion) â chyfrifoldeb | Statws Glas Coch Oren a Gwyrdd | Cynnydd | % Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Thema 1 - Adolygu arferion presennol a datblygu canlyniadau ym mhob cyfnod dylunio newydd | Mai 2019 | Medi 2019 | Mai 2019 | | AM | Gwyrdd | | 0% |
| Thema 1 - Sicrhau bod yr holl waith ymgynghori wedi ei gynllunio â phwyslais ar y 5 ffordd o weithio | Mai 2019 | Medi 2019 | Mai 2019 | | CD | Gwyrdd | | 0% |
| Thema 2 - Defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gynnwys rhanddeiliaid yn y gwaith o gynllunio a darparu | Mai 2019 | Ebrill 2022 | Mai 2019 | | CD | Gwyrdd | | 0% |
| Thema 2 - Cynnwys partïon sefydledig (e.e. cyngor dylunio Cymru) ar gamau allweddol o'r broses ddarparu | Mai 2019 | Ebrill 2022 | Mai 2019 | | CD | Gwyrdd | | 0% |
| Thema 2 - Sicrhau bod y data cywir yn cael eu casglu yn rhan o'r broses gynnwys (e.e. gwell dull o gasglu gwybodaeth gan gyflogwr: llais y cyflogwr ar ôl cyflawni'r ymyriad) | Mai 2019 | Ebrill 2020 | Mai 2019 | | AM | Gwyrdd | | 10% |

| Gweithgaredd | Dyddiad Dechrau a Gynlluniwyd | Dyddiad Gorffen a Gynlluniwyd | Dyddiad Dechrau Gwirioneddol | Dyddiad Gorffen Gwirioneddol | Swyddog(ion) â chyfrifoldeb | Statws Glas Coch Oren a Gwyrdd | Cynnydd | % Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Thema 3 - Sicrhau bod grwpiau ffocws yn cael eu defnyddio'n effeithiol yn ystod y camau cynllunio a thrwy gydol yr holl broses | Mai 2019 | Ebrill 2022 | Mai 2019 | | CD | Gwyrdd | | 0% |
| Thema 3 - Sicrhau bod arolygon lleisiau dysgwyr yn llywio'r prosesau cynllunio a darparu | Mai 2019 | Ebrill 2022 | Mai 2019 | | CD | Gwyrdd | | 0% |
| Thema 3 - Sicrhau bod y partïon cywir yn cymryd rhan mewn grwpiau ffocws ac yn ystod cyfnodau eraill trwy gydol y broses o gyflawni'r cam hwn | Mai 2019 | Ebrill 2022 | Mai 2019 | | AO | Gwyrdd | | 0% |
| Thema 3 - Deall dynameg y gymuned a chynnwys y gymuned wrth gynllunio a thrwy gydol y broses | Mai 2019 | Ebrill 2022 | Mai 2019 | | AO | Gwyrdd | | 0% |
| Integreiddio | | | | | | | | |

| Gweithgaredd | Dyddiad Dechrau a Gynlluniwyd | Dyddiad Gorffen a Gynlluniwyd | Dyddiad Dechrau Gwirioneddol | Dyddiad Gorffen Gwirioneddol | Swyddog(ion) â chyfrifoldeb | Statws Glas Coch Oren a Gwyrdd | Cynnydd | % Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Thema 1 - Rhannu strategaethau'n well (o ran canlyniadau) ar draws Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | Mai 2019 | Ebrill 2020 | Mai 2019 | | AM | Gwyrdd | | 10% |
| Thema 1 - Symleiddio strategaethau | Mai 2019 | Ebrill 2020 | Mai 2019 | | AM | Gwyrdd | | 10% |
| Thema 1 - Gwella'r broses o gyfathrebu â rhanddeiliaid ynghylch cynllunio, datblygu a gweithredu'r strategaeth | Mai 2019 | Ebrill 2022 | Mai 2019 | | CD | Gwyrdd | | 0% |
| Thema 1 - Sicrhau bod yr holl staff (a phawb sy'n gysylltiedig) yn deall eu cyfraniad wrth gyflawni canlyniadau | Mai 2019 | Ebrill 2022 | Mai 2019 | | HB | Gwyrdd | | 0% |
| Thema 1- Defnyddio'r llinyn euraidd fel bod staff yn deall eu rhan nhw yn y darlun ehangach | Mehefin 2019 | Ebrill 2020 | | | EC | Gwyrdd | | 0% |
| Thema 1 - Sicrhau bod yr holl bartneriaid yn deall sut y gellir defnyddio eu cyfraniad at y broses gydweithredu er mwyn cyflawni'n well ar gyfer ein | Mai 2019 | Ebrill 2022 | Mai 2019 | | CD | Gwyrdd | | 0% |

| Gweithgaredd | Dyddiad Dechrau a Gynlluniwyd | Dyddiad Gorffen a Gynlluniwyd | Dyddiad Dechrau Gwirioneddol | Dyddiad Gorffen Gwirioneddol | Swyddog(ion) â chyfrifoldeb | Statws Glas Coch Oren a Gwyrdd | Cynnydd | % Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| dinasyddion (y bobl iawn yn siarad ar yr adeg iawn) | | | | | | | | |
| Thema 2 - Sicrhau ymrwymiad a dealltwriaeth briodol drwy bolisïau a strategaethau cydgysylltiedig | Mai 2019 | Ebrill 2022 | Mai 2019 | | HB | Gwyrdd | | 0% |
| Thema 2 - Defnyddio iaith gyffredin a nodau cyffredin (yn fewnol ac yn allanol) ar draws pob fforwm | Mai 2019 | Ebrill 2020 | | | AM | Oren | | 0% |
| Thema 2 - Datblygu gwell dealltwriaeth ymhlith arweinwyr a staff gweithredol Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful o sut y mae cyflawni canlyniadau o fewn amcan llesiant hefyd yn cyfrannu at amcanion llesiant ehangach. | Mai 2019 | Ebrill 2020 | | | EC | Oren | | 0% |
| Thema 2 - Sicrhau bod y cynlluniau strategol yn gydnaws | Mai 2019 | Ebrill 2020 | | | AM | Oren | | 0% |

| Gweithgaredd | Dyddiad Dechrau a Gynlluniwyd | Dyddiad Gorffen a Gynlluniwyd | Dyddiad Dechrau Gwirioneddol | Dyddiad Gorffen Gwirioneddol | Swyddog(ion) â chyfrifoldeb | Statws Glas Coch Oren a Gwyrdd | Cynnydd | % Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Thema 2 - Sicrhau bod yr holl allbynnau a'r targedau wedi eu cysylltu â strategaethau sy'n cyflawni blaenoriaethau | Mai 2019 | Ebrill 2020 | | | AM | Oren | | 0% |
| Thema 3 - Sicrhau bod rhyngweithio rheolaidd parhaus yn digwydd â'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Bwrdd Cynllunio Strategol er mwyn rhannu datblygiadau a newidiadau | Mai 2019 | Ebrill 2022 | Mai 2019 | | EC | Gwyrdd | | 0% |
| Thema 3 - Sicrhau bod yr holl adnoddau wedi eu cyfochri er mwyn darparu strategaethau i ddarparu'r gwerth gorau am arian yn seiliedig ar flaenoriaethu | Mai 2019 | Ebrill 2020 | Mai 2019 | | AO | Oren | | 0% |
| Thema 3 - Sicrhau bod y cyngor yn parhau â'i swyddogaeth fel cysylltydd a hwylusydd wrth integreiddio strategaethau a chyllid i'r holl randdeiliaid | Mai 2019 | Ebrill 2020 | Mai 2019 | | EC | Gwyrdd | | 0% |

| Gweithgaredd | Dyddiad Dechrau a Gynlluniwyd | Dyddiad Gorffen a Gynlluniwyd | Dyddiad Dechrau Gwirioneddol | Dyddiad Gorffen Gwirioneddol | Swyddog(ion) â chyfrifoldeb | Statws Glas Coch Oren a Gwyrdd | Cynnydd | % Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Yr Hirdymor | | | | | | | | |
| Thema 1 - Sicrhau bod amcanion llesiant a gweledigaeth y cyngor yn ystyried yr hirdymor a bod cynlluniau gweithredu'n gyson â hynny | Mai 2019 | Ebrill 2020 | Mai 2019 | | EC | Gwyrdd | | 0% |
| Thema 1 - Sicrhau bod y pum ffordd o weithio yn ganolog i gynlluniau gwella busnes, hunanwerthuso a llywodraethu corfforaethol | Mai 2019 | Ebrill 2020 | Mai 2019 | | AM | Gwyrdd | | 0% |
| Thema 1 - Cysylltu â chynnwys ac integreiddio - sicrhau bod yr holl strategaethau ac amcanion partner yn gyson â'r hirdymor | Mai 2019 | Ebrill 2020 | Mai 2019 | | AM | Gwyrdd | | 10% |
| Thema 1 - Gweithio gyda rhanddeiliaid/partneriaid i egluro'r weledigaeth hirdymor ar gyfer Merthyr Tudful a sut y gall pawb gydweithio i gyflawni hynny | Mai 2019 | Ebrill 2022 | Mai 2019 | | CD | Gwyrdd | | 0% |

| Gweithgaredd | Dyddiad Dechrau a Gynlluniwyd | Dyddiad Gorffen a Gynlluniwyd | Dyddiad Dechrau Gwirioneddol | Dyddiad Gorffen Gwirioneddol | Swyddog(ion) â chyfrifoldeb | Statws Glas Coch Oren a Gwyrdd | Cynnydd | % Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Thema 1 - Wrth ymgysylltu â'r gymuned, sicrhau yr ystyrir yr hirdymor | Mai 2019 | Ebrill 2022 | Mai 2019 | | CD | Gwyrdd | | 0% |
| Thema 2 - Adolygu 'yr hirdymor' ym mhob strategaeth | Mai 2019 | Ebrill 2020 | Mai 2019 | | AM | Gwyrdd | | 10% |
| Thema 2 - Profi cynlluniau strategol a chynlluniau gwella busnes o'u cymharu â'r hirdymor | Mai 2019 | Ebrill 2020 | Mai 2019 | | AM | Gwyrdd | | 10% |
| Thema 2 - Diffinio swyddogaethau ar draws cynlluniau gweithredu sy'n cynnwys cynllunio olyniaeth er mwyn darparu ar gyfer yr hirdymor | Mai 2019 | Ebrill 2020 | Mai 2019 | | HB | Gwyrdd | | 10% |
| Thema 2 - Sicrhau bod pob strategaeth yn un integredig a hirdymor | Mai 2019 | Ebrill 2020 | Mai 2019 | | AM | Gwyrdd | | 10% |
| Thema 2 - Profi gweledigaeth a nodau er mwyn sicrhau pwyslais ar yr hirdymor | Mai 2019 | Ebrill 2020 | Mai 2019 | | AM | Gwyrdd | | 10% |

| Gweithgaredd | Dyddiad Dechrau a Gynlluniwyd | Dyddiad Gorffen a Gynlluniwyd | Dyddiad Dechrau Gwirioneddol | Dyddiad Gorffen Gwirioneddol | Swyddog(ion) â chyfrifoldeb | Statws Glas Coch Oren a Gwyrdd | Cynnydd | % Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Thema 3 - Gweithio gyda chyllidwyr a gosodwyr polisi er mwyn cysoni strategaethau cenedlaethol a chyllid â'r hirdymor | Medi 2019 | Ebrill 2022 | | | AO | Gwyrdd | | 0% |
| Thema 3 - Ymgorffori'r pum ffordd o weithio i'r broses Ffocws ar Fy Mherfformiad | Mai 2019 | Ebrill 2020 | Mai 2019 | | HB | Gwyrdd | | 50% |
| Thema 3 - Craffu ar y gorwel i sicrhau y nodir risgiau yn y dyfodol o ran cyflawni'r weledigaeth/nodau | Mai 2019 | Ebrill 2020 | Mai 2019 | | AM | Gwyrdd | | 10% |

# Atodiad 1

## Dangosyddion Cadarnhaol o'r Pum Ffordd o Weithio

Mae'r tabl isod yn nodi 'dangosyddion cadarnhaol' ar gyfer pob un o'r pum ffordd o weithio yr ydym wedi'u nodi ac y byddwn yn eu defnyddio er mwyn helpu i lywio ein hasesiadau o'r graddau y mae cyrff yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Nid ydym yn bwriadu defnyddio'r dangosyddion fel 'rhestr wirio'. Dylid eu hystyried yn 'ddangosyddion' a fydd yn ein helpu i gyrraedd casgliadau, yn hytrach na 'phenderfynyddion' o i ba raddau y mae corff yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynliadwy wrth gymryd camau i gyflawni ei amcanion llesiant.

Arddangosyn 3: Dangosyddion Cadarnhaol o'r Pum Ffordd o Weithio

| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn cymhwyso'r ffordd hirdymor o weithio yn llawn?** |
|---|
| • Ceir dealltwriaeth glir o ystyr 'hirdymor' yng nghyd-destun y Ddeddf.<br>• Mae wedi cynllunio'r cam i gyflawni'r amcan(ion) llesiant a chyfrannu at ei weledigaeth hirdymor<br>• Mae wedi cynllunio'r cam i gyflawni buddion tymor byr a chanolig, sydd wedi'u cydbwyso â'r effaith yn y tymor hir (o fewn cyd-destun y prosiect).<br>• Mae wedi cynllunio'r cam ar sail dealltwriaeth soffistigedig o anghenion a phwysau presennol ac yn y dyfodol, gan gynnwys dadansoddi tueddiadau yn y dyfodol.<br>• O ganlyniad i hyn, ceir dealltwriaeth gynhwysfawr o'r risgiau a'r cyfleoedd presennol ac yn y dyfodol.<br>• Mae adnoddau wedi'u dyrannu i sicrhau y cyflawnir buddion hirdymor yn ogystal â rhai tymor byr.<br>• Ceir pwyslais ar gyflwyno canlyniadau, a nodir cerrig milltir/camau datblygu pan gaiff canlyniadau eu cyflawni yn y tymor hir.<br>• Mae'n agored i ffyrdd newydd o wneud pethau a allai helpu i gyflawni buddion yn y tymor hirach.<br>• Mae'n gwerthfawrogi gwybodaeth ac yn canlyn dulliau wedi'u seilio ar dystiolaeth. |
| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn cymhwyso'r ffordd ataliol o weithio yn llawn?** |
| • Mae'r corff yn ceisio deall yr achosion sydd wrth wraidd problemau er mwyn gallu mynd i'r afael â chylchoedd negyddol a heriau ar draws cenedlaethau.<br>• Mae'r corff yn gweld heriau o safbwynt y system gyfan, gan adnabod a gwerthfawrogi'r buddion hirdymor y gallant eu cyflwyno i bobl a lleoedd.<br>• Mae'r corff yn dyrannu adnoddau i gamau ataliol sy'n debygol o gyfrannu at well canlyniadau, a gwell defnydd o adnoddau yn y tymor hir, hyd yn oed pan fo cyfyngiad posibl ar y gallu i ddiwallu rhai o'r anghenion tymor byr.<br>• Ceir trefniadau gwneud penderfyniadau ac atebolrwydd sy'n cydnabod gwerth camau ataliol ac sy'n derbyn gostyngiadau tymor byr mewn perfformiad ac adnoddau wrth ganlyn y gwelliannau disgwyliedig i'r canlyniadau a'r defnydd o adnoddau. |

| Beth fyddai'n dangos bod corff yn defnyddio dull 'integredig'? |
|---|
| • Mae unigolion ar bob lefel yn deall eu cyfraniad i gyflawniad y weledigaeth a'r amcanion llesiant.<br>• Mae unigolion ar bob lefel yn deall yr hyn y mae gwahanol rannau'r sefydliad yn ei wneud ac yn ceisio cyfleoedd yn rhagweithiol i weithio ar draws ffiniau sefydliadol. Caiff hyn ei efelychu yn ei waith â chyrff cyhoeddus eraill.<br>• Mae unigolion ar bob lefel yn cydnabod y dibyniaethau ar draws y sefydliad i gyflawni'r uchelgais a'r amcanion.<br>• Ceir diwylliant agored o rannu gwybodaeth.<br>• Ceir dealltwriaeth ddatblygedig o sut y mae'r amcanion llesiant a'r camau i'w cyflawni yn effeithio ar gyrff eraill y sector cyhoeddus.<br>• Mae unigolion yn gweithio'n rhagweithiol ar draws ffiniau sefydliadol i gyflawni'r cyfraniad mwyaf posibl ar draws y nodau llesiant ac i leihau'r effeithiau negyddol gymaint â phosibl.<br>• Mae trefniadau llywodraethu, strwythurau a phrosesau yn cefnogi hyn, ac ymddygiad hefyd. |
| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn cydweithredu'n effeithiol?** |
| • Mae'r corff yn canolbwyntio ar le, cymuned a chanlyniadau yn hytrach na ffiniau sefydliadol.<br>• Mae gan y corff ddealltwriaeth o amcanion partneriaid a'u cyfrifoldebau, sy'n helpu i lywio gweithgareddau cydweithredol.<br>• Mae gan y corff berthynas gadarnhaol ac aeddfed â rhanddeiliaid, a chaiff gwybodaeth ei rhannu mewn ffordd agored a thryloyw.<br>• Mae'r corff yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi cyfraniadau'r holl bartneriaid.<br>• Mae'r corff yn ceisio sefydlu prosesau a ffyrdd o weithio cyfrannol, pan fo hynny'n briodol. |
| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn cynnwys pobl yn effeithiol?** |
| • Meddu ar ddealltwriaeth o bwy sydd angen bod yn gysylltiedig a pham.<br>• Myfyrio ar ba mor dda yw'r ddealltwriaeth o anghenion a heriau y bobl hynny ar hyn o bryd.<br>• Gweithio mewn modd cydgynhyrchiol, gweithio gyda rhanddeiliaid i gynllunio a chyflawni.<br>• Ystyried barn rhanddeiliaid yn ffynhonnell wybodaeth hollbwysig a fydd yn helpu i gyflawni gwell canlyniadau.<br>• Sicrhau y cynrychiolir yr amrywiaeth lawn o randdeiliaid a'u bod yn gallu cymryd rhan.<br>• Bod â pherthynas aeddfed o ymddiriedaeth â'i randdeiliaid, lle ceir dialog parhaus a chaiff gwybodaeth ei rhannu mewn ffordd agored a thryloyw.<br>• Sicrhau bod rhanddeiliaid yn deall effaith eu cyfraniad.<br>• Gofyn am adborth gan randdeiliaid allweddol a defnyddio hyn i helpu i ddysgu a gwella. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru